**Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Dinbych**

**Rhaglen**

**10 Hydref 2024, 2pm, Swyddfeydd Coed Pella CBSC, Bae Colwyn**

1. Croeso a Chyflwyniadau
2. Cylch Gorchwyl
3. Diweddariad Conwy
4. Diweddariad Sir Ddinbych
5. Beth ydym ni’n dymuno ei gyflawni drwy’r fforwm?  (Sesiwn grŵp)
6. Datganiadau o Ddiddordeb
7. PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD

Mae’r weithdrefn sydd i’w dilyn i benodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Fforwm wedi’i nodi yn Rheoliad 12 o Reoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol (Cymru) 2001.

Yn ei hanfod,  mae’n rhaid i benodiad y Cadeirydd a’r Dirprwy Gadeirydd fod drwy bleidlais gudd fel yr eitem gyntaf o fusnes yn ail gyfarfod y Fforwm. Dim ond aelodau’r Fforwm all sefyll am y swyddi, a’r ysgrifennydd fydd yn llywyddu yn ystod yr etholiad.

Mae’r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn awgrymu mai aelodau eraill y Fforwm ddylai gynnig yr ymgeiswyr. Mae’r canllawiau’n nodi mai’r Fforwm ei hun yn ei gyfarfod cyntaf ddylai benderfynu, yn amodol ar y Rheoliadau, sut y mae’n dymuno cynnal yr etholiad.

Yn hytrach na chloi’r cyfarfod cyntaf drwy geisio enwebiadau (fel yr awgrymir yn y canllawiau), y cynnig yw ceisio enwebiadau a chynnal yr etholiad ei hun ar ddechrau ail gyfarfod y Fforwm. Bydd hyn yn galluogi’r aelodau hynny sydd eisoes wedi ymgyfarwyddo eu hunain â’r manylion a gyflwynwyd gan eu cyd-aelodau (fel y nodir yn Eitem 6 uchod) i gyfarfod yn anffurfiol cyn y broses benodi, cyn dechrau’r ail gyfarfod.

**CYNNIG** -  mai enwebu a phenodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Fforwm yw’r eitem gyntaf o fusnes yn y cyfarfod nesaf.  Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn cael eu hystyried gyflwyno CV byr i ysgrifennydd y fforwm a bydd yr ysgrifennydd yn rhoi copi i bob aelod yn ystod yr wythnos cyn y cyfarfod.

**Conwy East and Denbighshire Local Access Forum**

**Agenda**

**October 10th 2024, 2pm, CCBC Coed Pella Offices, Colwyn Bay**

1. Welcome and Introductions

2. Terms of Reference

3. Conwy Update

4. Denbighshire Update

5. What do we want to achieve through the forum? (Breakout session)

6. Expressions of interest

7. APPOINTMENT OF CHAIR AND DEPUTY CHAIR

The procedure to be followed for the appointment of the Chair and the Deputy Chair of the Forum is set out in Regulation 12 of the Countryside Access (Local Access Forums) (Wales) Regulations 2001.

In essence, the appointment of the Chair and Deputy Chair must be conducted by secret ballot as the first item of business at the second meeting of the Forum. Only members of the Forum can stand for the positions, with the Secretary presiding over the election.

The guidance issued by the Welsh Government and Natural Resources Wales suggests that candidates be proposed by another member of the Forum. The guidance provides for the Forum itself, at the first meeting, to decide subject to the Regulations how it wishes to conduct the election.

Rather than conclude the first meeting by seeking nominations (as suggested in the guidance), it is proposed to seek nominations, and conduct the election itself, at the beginning of the second meeting of the Forum. This will enable members who will have already familiarised themselves with the details their fellow members have submitted (as set out in Agenda Item 6 above) to meet informally prior to the appointment process prior to the start of the second meeting..

**PROPOSAL –** That nominations for, and the appointment of, the Chair and Deputy Chair of the Forum be dealt with as the first item of business at the next meeting. Any persons with an interest in consideration may submit a brief CV to the forum secretary who will provide each member with a copy during the week prior to the meeting.